| | |
|---|---|
| **Cynhaliwyd ar:** | **17 Tachwedd 2017** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Howard Sutcliffe** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Helen Sophia Mrowiec** |
| **Teitl:** | **Eitem 7 Partneriaeth Ein Tirwedd Hardd** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae Cynllun Ein Tirwedd Hardd yn brosiect partneriaeth 5 mlynedd, sy'n werth £2 filiwn, a arweinir gan AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sy'n bwriadu:

- Cadw ac adfer nodweddion arbennig yn y dirwedd
- Dod â phwysigrwydd y dirwedd yn agosach at bobl.
- Buddsoddi mewn gwytnwch safleoedd allweddol.
- Gwneud yr ardal yn fwy hygyrch, yn ffisegol ac yn ddeallusol
- Gwella amrediad o gynefinoedd allweddol a'u cysylltedd, gan ymgysylltu â pherchnogion tir.

1.2 Cafwyd cymeradwyaeth Cam 1 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, gyda disgwyl y bydd cais Cam 2 yn cael ei gyflwyno ym mis Tachwedd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I geisio cymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor i gyflwyno Cais Cynllun Partneriaeth Ein Tirwedd Hardd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno cais Cam 2 i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. (Am ragor o wybodaeth am y Cynllun, cyfeiriwch at:
Eitem 7 Atodiad 1 Cynllun Gweithredu Cadwraeth Tirwedd
Eitem 7 Atodiad 2 Cynllun Gweithredu Cadwraeth Tirwedd – Trosolwg Prosiect)

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Eitem 7 Atodiad 3) yn rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae ein Cynllun Partneriaeth Ein Tirwedd Hardd yn canolbwyntio ar dirwedd Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte. Fel ei themâu, ceir teithiau ysbrydoledig sydd wedi, ac yn parhau i fod yn nodwedd o'r ardal, y gellir ei chroesi dros y Gamlas, A5 Telford ac Afon

Dyfrdwy. Mae ymwelwyr wedi'u hysbrydoli gan y dyffryn prydferth hwn ar ffurf celf a barddoniaeth ers y 18fed ganrif, ac yn parhau i ddenu twristiaid sy'n chwilio am yr aruchel.

4.2 Ond dyma dirwedd o dan bwysau mawr, gyda nifer uchel o ymwelwyr yn cael eu denu at yr hyn sy'n aml yn cynnwys ein safleoedd mwyaf bregus. Mae'r cymunedau ar ei charreg drws, a ddaeth i fod o ganlyniad i'r ymdrechion diwydiannol a'i siapiodd, bellach â llai o gyswllt â'r buddion a gyflwynir gan y dirwedd. Bydd y prosiect yn buddsoddi yng ngwydnwch safleoedd ymwelwyr allweddol ac yn cynnwys cymunedau yn ei werthfawrogiad a'i reolaeth, wrth ail-ddehongli'r dirwedd gyfoethog hon ar gyfer cenhedlaeth newydd.

4.3 Mae Cynllun Partneriaeth Ein Tirwedd Hardd yn brosiect partneriaeth a ddatblygwyd gan Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Cyngor Sir Amwythig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, Cadwyn Clwyd, Aqueducks (Cyfeillion Safle Treftadaeth y Byd) a Chyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

4.4 Mae prosiectau wedi'u datblygu o dan 3 thema:

**Gwarchod y Dirwedd Hardd**

Bydd golygfeydd allweddol, nodweddion treftadaeth a chynefinoedd yn cael eu hadfer, rhoddir cymorth i berchnogion tir ar gyfer rheolaeth gadarnhaol drwy gynllun grant cefn gwlad, a bydd atebion arloesol yn cael eu haddasu i leihau tagfeydd a materion erydu a mynediad.

**Cael mynediad at y Dirwedd Hardd**

Bydd mynediad ffisegol yn cael ei wella, a bydd dehongliad i gynyddu hygyrchedd, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dreftadaeth amrywiol ac eithriadol Ardal Prosiect Cynllun Ein Tirwedd Hardd.

**Pobl a'r Elfen Hardd**

Bydd amrediad eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu trefnu i ymgysylltu ag unigolion a grwpiau o gymunedau wedi'u targedu. Bydd prosiectau arlunwyr preswyl ac adnoddau addysgol newydd hefyd yn cael eu datblygu.

## 5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

5.1 Bydd Ein Tirwedd Hardd yn darparu yn erbyn Polisïau Ansawdd a Chymeriad y Dirwedd, Amgylchedd Hanesyddol, Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt, Diwylliant a Thwristiaeth a Mynediad, Cynllun Rheoli Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Gweler Atodiad 5 am fanylion pellach.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Cyfanswm cost Cynllun Partneriaeth Ein Tirwedd Hardd yw £2,027,362, ac mae'n cynnwys cyflogi 2.5 aelod o staff i ddarparu'r cynllun a'r costau cysylltiedig.

6.2 Mae’r Cyllid ar gyfer y cynllun yn cynnwys:

- £1,314,450 o gefnogaeth grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
- £380,000 gan Aelodau Partneriaeth
- £30,000 o arian cyfatebol mewn ffyrdd eraill
- £25,000 o arian cyfatebol gan berchnogion tir drwy gynllun rheoli grant cefn gwlad
- £120,000 gan Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (cymeradwyaeth cam 1 wedi dod i law ac yn aros am benderfyniad ar gais cam 2, a ddisgwylir yn Ionawr 2018).
- Ceir £157,912 sydd heb ei ddiogelu. Bydd ceisiadau’n cael eu cyflwyno i’r Gronfa Ddatblygu Gynaliadwy, Cadwyn Clwyd, Grant Cystadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod darparu 5 mlynedd. Mae’r elfen heb ei diogelu yn llai na’r 10% wrth gefn sy’n ofyniad o Gais Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ac felly teimlir bod y risg yn gallu cael ei rheoli drwy reolaeth prosiect ofalus. Yn ogystal â hynny, mae’n debygol y bydd y cynllun yn diogelu mwy o arian cyfatebol mewn ffyrdd eraill, na’r hyn a geir yn y cais, a allai leihau’r diffyg cyfredol, fodd bynnag, byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn y gyllideb wirioneddol y gellir ei gwario mewn gwirionedd, gan nad ydyw’n gyfraniad arian parod. Mae’r cynllun eisoes wedi diogelu’r arian cyfatebol blwyddyn gyntaf fel sy’n ofynnol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, i fwrw ati i’r cam darparu.

6.3 Mae canlyniadau a thargedau’r cynllun wedi’u hystyried yn ofalus i leihau’r risg a sicrhau bod modd cyflawni’r targedau.

6.4 Ni fydd angen cefnogaeth TGCh ychwanegol ychwaith, ac eithrio’r offer cyffredinol ar gyfer sefydlu prosiect, a gyllidebwyd o fewn y cynllun.

6.5 Bydd y prosiect yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i wella bioamrywiaeth drwy waith cadwraeth cadarnhaol a fydd yn cryfhau cysylltedd â chynefinoedd, gan weithio gyda pherchnogion tir ar draws ystod o gynefinoedd, yn cynnwys glaswelltir, ffridd, coetir a chyrsiau dŵr.

6.6 Mae’r prosiect wedi cael cytundeb partneriaeth gyda phartneriaid prosiect.

6.7 Bydd angen cefnogaeth gan dîm cyllid Sir Ddinbych wrth gyflwyno hawliadau chwarterol, a fydd yn cael ei baratoi gan Reolwr y Prosiect.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1 Mae Cynllun Partneriaeth Ein Tirwedd Hardd wedi sgorio’n dda o dan yr offeryn Asesiad o Effaith ar Les, fel prosiect trawsbynciol sy’n darparu yn erbyn pob un o’r 7 nod lles. Cafodd y cynllun 3 seren allan o 4 ac mae’n debyg na chafodd sgôr uwch gan ei fod yn fenter cyfyngedig i amser, gyda strategaeth gwblhau 10 mlynedd nad ydyw wedi ystyried ei heffaith yn 2050 a thu hwnt.

7.2 Cafodd yr Asesiad o Effaith ei gwblhau gan Helen Mrowiec a Howard Sutcliffe o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ar ran y Bwrdd Partneriaeth Tirwedd.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae Cynllun Partneriaeth Ein Tirwedd Hardd wedi gwneud yr ymgynghoriad canlynol fel rhan o Gam Datblygu'r Prosiect:

- arolwg defnyddiwr mewn safleoedd ymwelwyr allweddol yn ardal y prosiect
- rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus
- arolwg ar-lein i'r rhai hynny sydd methu dod i ddigwyddiadau
- cyfarfodydd gyda phartneriaid prosiect allweddol
- cwis/ymgynghoriad wedi'i ddylunio ar gyfer pobl ifanc
- cyfarfodydd gydag unigolion a sefydliadau o grwpiau anodd i'w cyrraedd

Mae arolwg defnyddwyr yn darparu data gwaelodlin ar ddefnyddwyr o'r dirwedd yn ardal prosiect Ein Tirwedd Hardd.

Cafwyd digwyddiadau ymgynghori cymunedol ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr Wrecsam, Plas Newydd Llangollen ac Ystâd Rhug Corwen. Arweiniodd y rhain at awgrymiadau gan unigolion a grwpiau cymunedol ynghylch natur y prosiectau yr hoffent eu gweld yn cael eu gweithredu. Roedd arolwg ar-lein ar gael i bobl nad oedd yn gallu dod i'r digwyddiadau hyn.

Mae diweddariadau rheolaidd wedi'u rhoi i Gyd-bwyllgor Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Grŵp Rheoli Ymwelwyr Safle Treftadaeth y Byd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd Cynllun Ein Tirwedd Hardd yn helpu i ddarparu blaenoriaethau lleol drwy ddefnyddio arian cyfatebol ac arian grant. Yn bwysicach, mae'r cynllun eisoes wedi diogelu'r arian cyfatebol blwyddyn gyntaf fel sy'n ofynnol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, i fwrw ati i'r cam darparu. Er bod rhai elfennau heb eu diogelu i'r arian cyfatebol (ar draws oes 5 mlynedd y prosiect), gellir newid y prosiect i adnoddau arian cyfatebol pe bai hynny'n ofynnol. Ar y sail honno, fe gefnogir yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Cyfeiriwch at Eitem 7 Atodiad 4 Asesiad Risg ar gyfer Cynllun Partneriaeth Ein Tirwedd Hardd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r sail Gyfreithiol yn Adran 101 (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle y gall Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i 'gyflawni

swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o Awdurdodau Lleol eraill drwy Gydbwyllgor.'